Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 11 Medi 2019

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 19eg Medi, 2019 at 2.00 pm,
## Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | Ymddiheuriadau am absenoldeb | |
| 2. | Datganiadau o Fuddiant | |
| 3. | Cwestiynau gan y Cyhoedd | |
| 4. | Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau | 1 - 2 |
| 5. | Adroddiad y Prif Weithredwr: | |
| 5.1. | Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2018/19 | 3 - 92 |
| 6. | Adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau | |
| 6.1. | Ychwanegiadau Cyfalaf 2019-20 a Chymeradwyo Strategaeth | 93 - 120 |
| 6.2. | Caffael hen reilffordd y Weinyddiaeth Amddiffyn, Crug i Gaerwent | 121 - 126 |
| 7. | Adroddiad y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc | |
| 7.1. | Rhaglen Cyfalaf - Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | 127 - 132 |
| 8. | Adroddiad y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd | |

| | | |
|---|---|---|
| **8.1.** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd 2018/19** | 133 - 136 |
| **9.** | **Adroddiadau Prif Swyddog Menter** | |
| **9.1.** | **Gwneud Penderfyniadau Gorchmynion Hawliau Tramwy** | 137 - 146 |
| **9.2.** | **Bywyd Mynwy** | 147 - 252 |
| **9.3.** | **Cynllun Datblygu Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** | 253 - 320 |
| **10.** | **Adroddiad y Swyddog Monitro/Pennaeth Cyfreithol** | |
| **10.1.** | **DYRANIAD SEDDAU PWYLLGOR CYNLLUNIO** | 321 - 322 |
| **11.** | **Rhestr o Gynigion** | |
| **11.1.** | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir A. Easson**<br><br>Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin cytunwyd rhoi cynlluniau a rhaglen weithredu ar waith i fynd i'r afael â diogelwch cerddwyr, seiclwyr a modurwyr, a holl ddefnyddwyr ffordd arall ar hyd y B4245 rhwng Cil-y-coed a Magwyr. A fedrir rhoi diweddariad ar baratoadau a wnaed ers mis Mehefin?<br><br>Ers y cyfarfod hwnnw bu damwain arall ddifrifol iawn, gan adael seiclwr mewn cyflwr difrifol iawn.<br><br>Rwyf felly yn cynnig creu rhaglen gyfalaf gyda chost o £300k o leiaf (yn seiliedig ar gostiad 2012) gyda chyllid yn cael ei ddwyn ymlaen i hyrwyddo'r angen i gynnal y rhaglen weithredu. | |
| **11.2.** | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir D Batrouni**<br><br>Bod y Cyngor hwn yn mynegi siom enfawr fod y weithrediaeth Geidwadol wedi methu darparu 'Strategaeth Trechu Tlodi' ac yn gofyn bod y Cabinet yn datbygu cynllun ac yn ei gyhoeddi cyn gynted ag sydd modd.<br><br>Bod y Cyngor hefyd yn cyhoeddi dogfennau atodol megis 'Cynllun Fframwaith Darpariaeth' a 'Chanllaw i Ddeall a Diffinio Tlodi yn Sir Fynwy'. | |
| **12.** | **Cwestiynau Aelodau** | |
| **12.1.** | **Gan y Cynghorydd Sir S. Howarth i'r Cynghorydd Sir P. Fox, Arweinydd y Cyngor**<br><br>A fyddai Arweinydd y Cyngor yn dweud os gwelir yn dda os yw'n teimlo'n hapus gyda chanlyniadau pryderon preswylwyr Sir Fynwy | |

ynghylch cynllun ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd a weithredir gan Lywodraeth Cymru ac a gontractwyd i gael ei hadeiladu a'i dylunio gan Costains Group ccc.

**12.2.** **Gan y Cynghorydd Sir P. Pavia i'r Cynghorydd Sir P. Fox, Arweinydd y Cyngor**

A all Arweinydd y Cyngor yn rhoi diweddariad ar ail gam WelTAG, sy'n datblygu achos am ffordd osgoi ar gyfer Cas-gwent?

**12.3.** **Gan y Cynghorydd Sir P. Pavia i'r Cynghorydd Sir P. Jones, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd**

A all yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol roi diweddariad ar ymateb yr awdurdod i benderfyniad polisi Llywodraeth Cymru o osod targedau i ostwng nifer y plant mewn gofal?

**12.4.** **Gan y Cynghorydd Sir M. Powell i'r Cynghorydd Sir J. Pratt, Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth**

A wnaiff yr Aelod Cabinet edrych ar y rheolau am ddyfarnu trwyddedau i fasnachwyr symudol a stondinau ar strydoedd trefi ac ardaloedd amwynder. Mae perchnogion siopau ein trefi yn talu trethi busnes uchel am eu safleoedd. Oni ddylem fod yn eu cefnogi gan mai nhw yw asgwrn cefn y trefi.

Maent hefyd yn gorfod masnachu ar amserau tawel yn ogystal â gwyliau banc a dylent fedru manteision ar y dyddiau gwell.

Roeddwn yn credu fod gennym bolisi lle na ddylid caniatau i unrhyw unedau symudol neu stondinau mewn strydoedd preswyl lle mae siopau preswl yn gwerthu nwyddau a gwasanaethau tebyg.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi buddsoddi llawer iawn o arian i wella'r ardaloedd amwynder a chreu parthau i gerddwyr yn unig. Er enghraifft, mae Sgwâr Sant Ioan yn y Fenni yn lle i bobl eistedd, ymlacio a mwynhau naws yr ardal. Mae digonedd o gaffes a bwytai cyfagos i ddarparu lluniaeth iddynt, heb i faniau byrgyr mawr yn cymryd rhan fawr o'r sgwâr a mynd â busnes oddi ar y safleoedd preswyl. Hefyd mae'r faniau hyn yn gofyn am i drydan gael ei gyflenwi. Rhowch gyfle teg i'n masnachwyr preswyl.

Iawn, mae gennym stondinau bwyd o bob math yn ystod yr Ŵyl Fwyd ond digwyddiad unigol yw hynny.

Byddai'n gwrtais ac yn synhwyrol ymgynghori â Chynghorwyr lleol pan ofynnir i Gyngor Sir Fynwy am drwyddedau o'r fath..

**12.5.** **Gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni i'r Cynghorydd Sir P. Jordan, Aelod Cabinet dros Lywodraethiant a'r Gyfraith**

A all yr Aelod Cabinet ddiweddaru'r Cyngor ar effaith y cynnig ar Newid Hinsawdd ar holl brosesau gwneud penderfyniadau yn y Cyngor?

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019.** | 323 - 330 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
D. Dovey
L.Dymock
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.